HARDISTY JONES ASSOCIATES
Economic Development Advisers

Strategaeth Creu Lleoedd ar gyfer Wrecsam

Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol Posibl Dyfarniad o Statws Dinas

Paratowyd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

OWEN DAVIES CONSULTING
MEASURABLE LIVEABLE VIABLE

Hydref 2021

Crynodeb

i. Mae ffurflen gais Llywodraeth y Deyrnas Unedig am statws dinas yn gwahodd tref i ddangos pam ei bod yn haeddu statws dinas trwy gyflwyno gwybodaeth ar broffil, nodweddion allweddol, ac argraff o'r ardal. Er nad yw'r broses ymgeisio yn gofyn i dref ddarparu tystiolaeth o fuddion economaidd statws dinas, mae llawer o'r trafod yn Wrecsam a lleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig wedi cael ei fframio mewn termau economaidd.

ii. Nid oes tystiolaeth gyhoeddedig ar fanteision (nac anfanteision) economaidd o ennill statws dinas, felly i ymdrin â'r bwlch hwn mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi comisiynu'r astudiaeth annibynnol hon i archwilio'n benodol y manteision economaidd posibl i drefi fel Wrescam.

iii. Canfu'r astudiaeth fod y trefi y dyfarnwyd statws dinas iddynt wedi profi twf economaidd, ond nid yw data ONS yn dangos cyflymu yng nghyfradd twf yn sgil ennill statws dinas. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad cymharol o drefi a dinasoedd newydd yn awgrymu bod potensial o fudd lle mae statws dinas wedi cael ei ddefnyddio i gryfhau cynlluniau economaidd ac adfywio eraill mewn ardal.

iv. Mae'r astudiaethau achos cymharol yn dangos bod ardaloedd sydd wedi llwyddo i ennill statws dinas wedi profi amrywiaeth o fuddion gan gynnwys:

- Helpu i hybu balchder lleol a all, yn ei dro, arwain at fuddion economaidd
- Rhoi llwyfan newydd i hyrwyddo'r ddinas a chodi uchelgeisiau
- Creu cyfleoedd i sefydliadau angor, clystyrau economaidd, a sectorau i godi eu hamlygrwydd
- Galluogi rhai dinasoedd i ddenu prosiectau mawr fel parth prifysgol a menter, na fyddent efallai wedi eu sicrhau fel trefi
- Galluogi datblygu cysylltiadau â dinasoedd eraill a'u helpu i greu nerth trwy undod, gan sicrhau buddsoddiad cyhoeddus a phreifat a chydweithio â'r Llywdoraeth ar faterion strategol, yn enwedig yn yr Alban
- Rhoi rheswm a chyfeiriad penodol i ymgyrchoedd ail-frandio
- Llwyddiannau canfyddedig mewn denu mewnfuddsoddiad – a briodolir i ymwybyddiaeth o ddinasoedd a'r seilwaith a'r cyfleusterau maent yn eu cynnig ee deorfa busnesau, busnesau a sefydliadau lleol blaenllaw, law yn llaw â statws dinas
- Disgwyliadau uwch o greu lleoedd gyda dinasoedd yn cael eu gweld fel lleoedd bywiog i fyw, gweithio a buddsoddi ynddynt
- Caiff dinasoedd sydd â chefn gwlad hygyrch o'u cwmas eu gweld fel lleoedd deniadol iawn

v. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu'r cyfle am amrywiaeth o fuddion posibl statws dinas i Wrecsam os yw'n cysylltu dyfarniad o'r fath â chyflawni cynlluniau creu lleoedd a strategaethau buddsoddi mwy uchelgeisiol, a'r rheini'n gysylltiedig â nodweddion lleol fel y Brifysgol, cyflogaeth a seilwaith trefnidiaeth ac atyniadau diwylliannol.